

Cofnodion cyfarfod Cyngor Prifysgol Caerdydd a gynhaliwyd ar 1 Mai 2024 am 09:00 yn Ystafell Addysg Weithredol y Ganolfan Addysgu Ôl-raddedigion, Ysgol Busnes Caerdydd

Yn bresennol: Patrick Younge (Cadeirydd), Is-Ganghellor, Beth Button, Angie Flores Acuña, yr Athro Damian Walford Davies, Judith Fabian, Christopher Jones, Jan Juillerat, yr Athro Urfan Khaliq [o Gofnod 2213], Stephen Mann, Deio Owen, Dr Juan Pereiro Viterbo, Suzanne Rankin, Sian Rees, David Selway, Dr Robert Weaver, Dr Catrin Wood [hyd at Gofnod 2222], a Jennifer Wood.

Hefyd yn Bresennol: Yr Athro Rudolf Allemann, Hayley Beckett [Cofnod 2223], Laura Davies, Ruth Davies, Katy Dale [Cymerwr cofnodion], Tom Hay [o Gofnod 2213], Julie-Anne Johnston, Sian Marshall, Claire Morgan, Claire Sanders a Darren Xiberras.

2207 Croeso a materion rhagarweiniol

Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

2208 Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan yr Athro Fonesig Janet Finch, Jeremy Lewis, John Shakeshaft ac Agnes Xavier-Phillips.

2209 Datgan Buddiannau

Atgoffodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor am eu dyletswydd i ddatgelu unrhyw wrthdaro buddiannau posibl.

Nodwyd

2209.1 Datganodd Suzanne Rankin ddiddordeb mewn perthynas â risg Ysgolion Deintyddol a gynhwyswyd ar y Gofrestr Risg [Cofnod 2214] ac Adroddiad y Pwyllgor Dileu Swydd [Cofnod 2225], o ystyried ei chyflogaeth yn y GIG;

2209.2 Datganodd Angie Flores Acuña a Deio Owen ddiddordeb mewn perthynas â Grant Bloc Undeb y Myfyrwyr [Cofnod 2227].

2210 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 23/549C, 'Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol - 06 Chwefror 2024'. Siaradodd y Cadeirydd am yr eitem hon.

Nodwyd

2210.1 derbyniwyd cais i ddiwygio cofnod 2201.1 o "ac angen tua 12m i gyrraedd y targed hwn", i "a byddai angen gwelliant o tua £50m mewn perfformiad ariannol i gwrdd â tharged EBIDA".

Penderfynwyd

2210.2 cymeradwyo cofnodion 06 Chwefror 2024 yn amodol ar y newid uchod.

2211 Materion yn Codi

Derbyniwyd a nodwyd papur 23/551C, 'Materion yn Codi'. Siaradodd y Cadeirydd am yr eitem hon.

Penderfynwyd

- 2211.1 adolygu'r materion sy'n codi a oedd yn weddill ers 2022, a darparu diweddariad i'r rhai sy'n parhau a dileu'r rhai sydd bellach wedi'u cwblhau neu nad ydynt bellach yn berthnasol.

2212 Eitemau gan y Cadeirydd

Derbyniwyd papur 23/550C, 'Gweithredu'r Cadeirydd Ers y Cyfarfod Diwethaf'. Siaradodd y Cadeirydd am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2212.1 bod y Cadeirydd wedi cymeradwyo nifer o benodiadau, o blith aelodau'r Cyngor a Phennaeth Archwilio Mewnol fel y rhestrwyd yn y papur; bod Sian Rees wedi'i phenodi'n Hyrwyddwr y Gymraeg ar y Cyngor;
- 2212.2 bod Caerdydd wedi ennill y Varsity eleni ac anogwyd aelodau'r Cyngor i fynychu'r digwyddiad hwn yn y dyfodol;
- 2212.3 y diolchwyd i bawb a fu'n ymwneud â pharatoi ar gyfer y sgwrs ddiweddar gan Jacob Rees-Mogg;
- 2212.4 bod y Cadeirydd wedi ymweld â Y Lle (canolfan galw heibio Gymraeg newydd) ac wedi annog yr aelodau i wneud yr un peth;
- 2212.5 y cysylltir ag aelodau'r Cyngor i roi adborth ar arfarniad y Cadeirydd ac y byddent yn cael eu hannog i roi adborth gonest;
- 2212.6 y byddai gwybodaeth am Raddio 2024 yn cael ei rhannu yn fuan.

2213 Adroddiad Yr Is-ganghellor i'r Cyngor

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 23/576C, 'Adroddiad yr Is-Ganghellor i'r Cyngor'. Siaradodd yr Is-ganghellor am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2213.1 bod ansicrwydd parhaus o hyd ynghylch myfyrwyr rhyngwladol a bod hyn wedi'i waethygu gan bolisi San Steffan a anelwyd at fynd i'r afael â mewnfudo a oedd yn effeithio ar allu ac awydd myfyrwyr rhyngwladol i ddod i'r DU; roedd y Llwybr i Raddedigion hefyd yn debygol o gael ei effeithio gan adolygiad arfaethedig y Pwyllgor Ymfudo; bu "flight to quality" gyda myfyrwyr rhyngwladol yn cael eu denu i brifysgolion yn 100 uchaf QS (nad oedd Prifysgol Caerdydd, er bod nifer o bynciau); roedd y Brifysgol wedi cymryd nifer o gamau gweithredu yn y maes hwn (wedi adolygu ysgoloriaethau a defnydd asiant, gwell marchnata a mwy o ymweliadau) i ddileu rhwystrau i gynigion cyflym a mynd i'r afael â materion hanesyddol a byddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach unwaith y byddai'r Dirprwy Is-Ganghellor Rhyngwladol yn dechrau yn eu swydd;
- 2213.2 bod y gostyngiad i gyn-fyfyrwyr ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig yn boblogaidd, gyda chynigion ôl-raddedig gartref i fyny 6% a chynigion diamod i fyny 10%;

roedd hwn hefyd yn cael ei hysbysebu drwy'r tîm cyn-fyfyrwyr ac roedd trafodaethau'n cael eu cynnal ar gynnig hyn i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig;

- 2213.3 y teimlwyd bod y rhan fwyaf o staff yn deall yr angen am newid a chost hyn, ochr yn ochr â'r ffactorau mewnol ac allanol a oedd yn golygu bod angen y newid;
- 2213.4 bod y Brifysgol yn gwneud gwaith i sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cefnogi i symud ymlaen a chyflawni canlyniadau gradd;
- 2213.5 bod y Brifysgol yn parhau i ddyfnhau ei phartneriaeth â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan gynnwys gwaith o amgylch y Parth Buddsoddi newydd;
- 2213.6 roedd y Brifysgol yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a phartneriaid rhanbarthol eraill i ddatblygu Strategaeth Gwyddorau Iechyd Academaidd ar y Cyd;
- 2213.7 y byddai gwaith yn cael ei wneud i adolygu pam roedd pynciau wedi disgyn allan o'r 100 Uchaf QS; roedd nifer o newidiadau cyflym y gellid eu rhoi ar waith i wella safle QS y Brifysgol yn sylweddol;
- 2213.8 y byddai symud adeiladau o'r ystâd yn cyd-fynd â Strategaeth Breswyllo'r Brifysgol a bod manteision ariannol pellach o arbedion cyfleustodau a chynnal a chadw;
- 2213.9 bod gan Undeb y Myfyrwyr ymgyrch yn rhedeg i hysbysu myfyrwyr am y broses ar gyfer cofrestru i bleidleisio; nodwyd hefyd y posibilrwydd o orsaf bleidleisio ar y campws.

2214 Cofrestr Risg Strategol

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 23/483HC, 'Cofrestr Risg Strategol'. Siaradodd yr Is-ganghellor am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2214.1 [Hepgorwyd];
- 2214.2 [Hepgorwyd];
- 2214.3 [Hepgorwyd];
- 2214.4 [Hepgorwyd];
- 2214.5 [Hepgorwyd];
- 2214.6 [Hepgorwyd].

Penderfynwyd

- 2214.7 cymeradwyo'r Gynodeb Risg Strategol a'r Gofrestr a'r gwersi a ddysgwyd;
- 2214.8 gosod lefel darged o aeddfedrwydd risg.

2215 Adroddiad Cyllid a Rhagolwg Ch2

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 23/537C, 'Adroddiad Cyllid a Rhagolwg Ch2'. Siaradodd y Prif Swyddog Ariannol am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2215.1 bod y rhagolwg yn dangos dirywiad o Ch1 a thynnwyd sylw at y ffaith bod llawer o her wedi'i chynnwys yn y rhagolwg ar gyfer Ch1;
- 2215.2 [Hepgorwyd];
- 2215.3 [Hepgorwyd];
- 2215.4 [Hepgorwyd];
- 2215.5 bod cyllideb 2024/25 yn cael ei datblygu ac y byddai angen iddi fod yn realistig mewn perthynas â rhagfynegiadau incwm a senarios, ac adolygu sylfaen costau'r Brifysgol o ystyried ei hincwm; [Rhan wedi'i Hepgor]; roedd Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu, dan arweiniad y Dirprwy Is-Ganghellor, i adolygu data a fframweithiau ar gyfer arbedion costau ac argymhellion pennu cyllideb i'r Bwrdd Gweithredol;
- 2215.6 [Hepgorwyd];
- 2215.7 yr awgrymwyd y dylid tynnu'r gwahanu STIP o gyllidebau yn y dyfodol;
- 2215.8 y gallai cyhoeddi targed arbedion clir fod yn fuddiol o ran perchnogaeth yr her;
- 2215.9 hyd yn oed gyda thargedau recriwtio myfyrwyr wedi'u cyrraedd, roedd diffyg o tua 10%, sy'n adlewyrchu effaith y cynnydd mewn costau.

2216 Adroddiad Dwysiambr - Adolygiad o Argymhellion

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 23/437CR, 'Adroddiad Dwysiambr – Adolygiad o Argymhellion'. Siaradodd y Dirprwy Is-ganghellor am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2216.1 bod yr adolygiad hwn yn wreiddiol o Adolygiad Effeithiolrwydd Llywodraethu 2021 ac wedi'i gomisiynu gan y Cyngor;
- 2216.2 roedd Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu i bennu cwmpas yr adolygiad ac roedd Halpin wedi'i benodi i gynnal yr adolygiad;
- 2216.3 Roedd adroddiad Halpin wedi cynnwys 18 o argymhellion a 12 awgrym; o'r argymhellion, roedd y grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi argymhell y dylid bwrw ymlaen â phob un ond 1; nid oedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn teimlo bod y Senedd yn ddigon aeddfed hyd yma i sefydlu pwyllgor gosod agendâu (argymhelliad 12) ac y byddai hyn yn cael ei gynnwys trwy'r awgrym o eitemau trafod ehangach (awgrym 1); o'r awgrymiadau, roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cymeradwyo pob un ond tri, gan nad oedd budd Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd ar y cyd (awgrym 3) yn glir a theimlwyd bod ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol (awgrymiadau 11 a 12) y tu allan i'r briff;
- 2216.4 bod egluro cylch gorchwyl y Senedd (argymhellion 7 ac 8) yn allweddol; gofynnwyd am enghreifftiau da o hyn yn y sector a nodwyd mai'r Brifysgol fyddai'n penderfynu ar hyn; roedd Halpin wedi nodi bod y berthynas gyfansoddiadol rhwng y Senedd a'r Cyngor yn glir ar lefel uchel, ond yn dod yn fwy aneglur ar lefel is;
- 2216.5 bod y papur wedi'i adolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu a oedd wedi pwysleisio'r adolygiad o Statudau ac Ordinhadau mewn perthynas â rôl y Senedd

a'r Cyngor; nodwyd hefyd siom ynghylch y diffyg sylwadau ar rôl y pwyllgor gwaith;

- 2216.6 Roedd y Senedd hefyd wedi adolygu'r adroddiad ac wedi nodi nad oedd unrhyw argymhellion ynghylch y canfyddiad bod y Senedd yn cael ei gweld fel un sy'n rhoi sêl bendith yn unig; nodwyd cefnogaeth i ddiwrnod cwrdd i ffwrdd ar y cyd gan rai aelodau;
- 2216.7 bod Halpin wedi pennu bod y Brifysgol yn "gwella" ar eu Fframwaith Aeddfedrwydd Sicrwydd Academaidd ac a oedd dymuniad newid hyn i sgôr 'da';
- 2216.8 bod yr angen i barhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol wedi'i nodi yn dilyn diddymu'r Llys; roedd llawer iawn o ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i wneud fel rhan o'r Sgwrs Fawr a byddai angen cynnal hyn unwaith y byddai'r strategaeth newydd wedi'i chymeradwyo; byddai tynnu sylw at yr effaith ar rhanddeiliaid o benderfyniadau'r Cyngor hefyd yn fuddiol;
- 2216.9 bod cyfnod ymsefydlu ar gyfer aelodau'r Senedd wedi'i nodi'n allweddol;
- 2216.10 y gallai diwrnodau cwrdd i ffwrdd ar y cyd ganolbwyntio ar faterion strategol (e.e NSS neu well dealltwriaeth o bobl ifanc a rôl addysg uwch yn eu bywydau).
- Penderfynwyd
- 2216.11 cymeradwyo'r argymhellion arfaethedig i'w symud ymlaen o adroddiad yr Adolygiad Dwysiambr a'r camau nesaf a'r amserlenni cysylltiedig;
- 2216.12 cymeradwyo'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i oruchwylio gweithrediad yr argymhellion, gyda'r nod o symud y Brifysgol o sgôr 'yn gwella' i sgôr 'da'.

2217 Adroddiad Adolygu Effeithiolrwydd Llywodraethu 2024

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 23/439CR, 'Adroddiad Adolygu Effeithiolrwydd Llywodraethu 2024'. Siaradodd y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2217.1 bod AdvanceHE wedi'i gomisiynu i gynnal arolwg a meincnodi'r data; roedd pynciau ymsefydlu, perthnasoedd gwaith a data cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) wedi bod yn is na'r meincnod ac felly o ddiddordeb;
- 2217.2 bod trafodaethau wedi'u cynnal gydag aelodau'r Cyngor ar weithgareddau ymsefydlu a byddai cynigion yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ym mis Mehefin; byddai'r rhain yn cysylltu ag argymhellion ynghylch ymsefydlu o'r Adolygiad Dwysiambr;
- 2217.3 mewn perthynas â pherthnasoedd gwaith, roedd sesiwn wedi'i hwyluso ar y ffin rheoli llywodraethu wedi'i threfnu i ddilyn y cyfarfod hwn;
- 2217.4 nad oedd yr arolwg wedi cynnwys data EDI a'i fod wedi canolbwyntio ar ganfyddiadau aelodau o amrywiaeth; roedd y Tîm Llywodraethu Corfforaethol wedi cymharu data amrywiaeth y Cyngor â data amrywiaeth staff y Brifysgol ac roedd hyn wedi dangos bod cyfran uwch o aelodau'r Cyngor yn 55+ oed (er bod hyn yn unol â'r sector); dangosodd adolygiad o'r tair blynedd diwethaf leihad yn nifer aelodau'r Cyngor sy'n datgan crefydd neu'n datgan crefydd nad yw'n Gristnogol; byddai gweithgareddau recriwtio yn y dyfodol yn ceisio canolbwyntio ar yr elfennau hyn;

2217.5 ei bod yn bwysig cydbwysu arbenigedd a phrofiad, ochr yn ochr â'r amrywiaeth a ddymunir, ac efallai y bydd cyfleoedd i dargedu hysbysebion i wneud y mwyaf o'r potensial ar gyfer ymgeiswyr amrywiol;

2217.6 ei bod yn bwysig sicrhau defnydd effeithiol o amser, er mwyn annog unigolion sy'n gweithio i ymgeisio ac ystyried adborth gan aelodau newydd; y gellid meddwl am y defnydd o'r term "aelodau lleyg" a'i arwyddocâd, ac ystyried a fyddai tâl yn cynyddu amrywiaeth.

Penderfynwyd

2217.7 cymeradwyo'r tri argymhelliad o Adroddiad 2024 yr Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu.

2218 Adroddiad gan Lywydd Undeb y Myfyrwyr

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 23/578, 'Adroddiad Llywydd Undeb y Myfyrwyr'. Siaradodd Llywydd Undeb y Myfyrwyr am yr eitem hon.

Nodwyd

2218.1 bod y Brifysgol wedi ennill Varsity ac am yr ail flwyddyn yn olynol wedi dod yn ail yng nghystadleuaeth Undeb Myfyrwyr gorau'r DU;

2218.2 bod yr Wythnos Siarad wedi canolbwyntio ar brofiadau myfyrwyr rhyngwladol a'r rhai ar leoliadau clinigol; amlygwyd nad oedd myfyrwyr yn aml yn gyfarwydd â'r cymorth sydd ar gael;

2218.3 bod Etholiadau'r Gwanwyn wedi'u cwblhau ac y byddai tri swyddog sabothol presennol yn parhau am ail flwyddyn;

2218.4 roedd yr adroddiad yn cynnwys tablau cymharu ar gyfer nifer y myfyrwyr a dalwyd drwy Siop Swyddi, fel dangosydd defnyddiol o effaith costau byw ar fyfyrwyr; nodwyd y gallai nifer y swyddi sy'n cael eu cynnig gael eu lleihau oherwydd yr argyfwng costau byw ac felly effeithio ar gymariaethau uniongyrchol;

2218.5 Roedd cyllid CCAUC wedi'i ddefnyddio ar gyfer ymgyrch iechyd meddwl wedi'i thargedu at ddynion;

2218.6 roedd gweithgareddau wedi'u cynnal ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi, gan gynnwys chwifio baner Dewi Sant dros y Prif Adeilad;

2218.7 bod Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi achrediad Cynnig Cymraeg i Undeb y Myfyrwyr; yr Undeb oedd y cyntaf i dderbyn yr achrediad hwn a byddai'n cael ei ddefnyddio fel astudiaeth achos;

2218.8 [Rhan wedi'i Hepgor]; roedd y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr wedi bod yn glir y byddai pawb yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiadau yn cael eu cefnogi a bod rhyddid i lefaru.

2219 Diweddariad ar Wella Addysg a Phrofiad Myfyrwyr

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 23/577, 'Diweddariad ar Addysg a Gwella Profiad Myfyrwyr'. Siaradodd y Rhag Is-ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2219.1 bod y cyfraddau dychwelyd presennol ar gyfer NSS 2024 dros 60% a bod disgwyl canlyniadau ym mis Gorffennaf;
- 2219.2 bod llawer iawn o waith wedi'i wneud i fynd i'r afael â chanlyniadau NSS 2023, yn enwedig ar lefel sefydliadol (e.e Llais Myfyrwyr, Cau'r Cylch Adborth); roedd cynlluniau pwnc yn cael eu rheoli gan Ddeoniaid y Colegau a byddai cynnydd yn erbyn cynlluniau yn cael ei adolygu yn yr wythnosau nesaf; nodwyd cynnydd o ran pynciau Gofal Iechyd ac Economeg; roedd pryderon ynghylch y Gyfraith a Gwleidyddiaeth gan fod covid a MAB wedi effeithio'n fawr ar y pynciau hyn;
- 2219.3 y bu rhywfaint o sylw yn y wasg ar drais yn erbyn menywod cyn y Nadolig a bod llawer iawn o waith wedi'i wneud i edrych ar y maes hwn, gyda grŵp gweithredol a grŵp cynghori (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) wedi'u sefydlu;
- 2219.4 mewn perthynas â'r prosiect prosesu marciau, bod asesiad risg wedi'i gynnal ar gyfer pob ysgol a'r llinellau amddiffyn cyntaf wedi'u cyflwyno cyn arholiadau'r haf; y bwriad oedd cael gweithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer mis Medi.

2220 Diweddariad ar yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol: Safonau Academaidd

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 23/422R, 'Diweddariad Adroddiad Ansawdd Blynyddol: Safonau Academaidd'. Siaradodd y Rhag Is-ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2220.1 bod y papur yn cynnwys yr eitemau a oedd ar goll o'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol a dderbyniwyd ym mis Tachwedd; roedd y rhain wedi'u gohirio oherwydd MAB a oedd wedi atal data rhag bod ar gael mewn pryd;
- 2220.2 bod sicrwydd gan yr arholwyr allanol ynghylch safonau academaidd y dyfarniadau;
- 2220.3 bod yr holl ganlyniadau wedi'u cadarnhau erbyn y terfyn amser a osodwyd ac na fu cynnydd sylweddol yn y dyfarniadau;
- 2220.4 y bu nifer enfawr o gwynion a bod y mwyafrif helaeth bellach wedi'u prosesu, er y bu oedi sylweddol; roedd y Brifysgol wedi gweithio gyda'r OIA ar hyn; [Rhan wedi'i Hepgor];
- 2220.5 cyn y pandemig, roedd y Brifysgol wedi bod yn is na Grŵp Russell ond yn uwch na'r sector ar gyfer canlyniadau gradd; yn ystod y pandemig, bu cynnydd, fel y gwelwyd ar draws y sector; ar ôl y pandemig, roedd y Brifysgol wedi disgyn i lefelau cyn-bandemig yn gyflymach na'r disgwyl ac roedd angen deall pam fod hyn wedi digwydd; nid oedd hyn yn ymwneud â chalibr na chyflawniadau myfyrwyr, ond yr hyn y gallai'r Brifysgol ei wneud i gefnogi myfyrwyr i gyflawni eu canlyniadau;
- 2220.6 bod data wedi'i ddadgyfuno'n awgrymu bod myfyrwyr du yn cael llai o raddau da na'u cyfoedion gwyn a bod y Brifysgol yn gweithio i fynd i'r afael â hyn;
- 2220.7 bod cynnydd i'w weld yn nifer y myfyrwyr yr oedd angen iddynt ail-wneud blwyddyn, yn cael eu tynnu'n ôl gan fyrddau arholi neu'n dewis tynnu'n ôl; roedd hil a chydarddoldeb yn effaith yma hefyd, gyda'r myfyrwyr hynny a oedd yn adrodd am anabledd ac nad oeddent yn derbyn LMA yn llai tebygol o symud ymlaen; roedd gwahaniaethau rhwng y colegau ond roedd pob un yn adlewyrchu'r patrwm hwn; roedd y Brifysgol yn canolbwyntio ar ymsefydlu blwyddyn un a thrawsnewid i fynd i'r afael â hyn;

2220.8 roedd y Brifysgol yn edrych yn gyfannol ar brofiad myfyrwyr, cymorth personol i fyfyrwyr a strategaeth ar gyfer y dyfodol yn y maes hwn; roedd sgwrs ehangach i'w chynnal ynglŷn â llwyth gwaith yn y maes hwn a'r angen i wahanu'r elfennau academaidd a chymorth i fyfyrwyr.

Penderfynwyd

2220.9 cymeradwyo'r adran wedi'i diweddarau ar safonau academaidd (adran 4) yn Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2022/23.

2221 Adroddiad Gwella Blynyddol

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 23/552, 'Adroddiad Gwella Blynyddol'. Siaradodd y Rhag Is-ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr am yr eitem hon.

Nodwyd

2221.1 bod yr adroddiad hwn yn bartner i'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol ac yn dangos bod y Brifysgol yn cael effaith ystyrion ar brofiad myfyrwyr, yn aeddfedu ac yn asesu ei hun yn y maes hwn;

2221.2 bod yr adroddiad yn cynnwys mwy o fetrigau ac astudiaethau achos, i wella mesur llwyddiant;

2221.3 bod nifer o gyflawniadau allweddol yn erbyn y portffolio gan gynnwys:

- .1 system Blackboard newydd;
- .2 gwell trefniadau Llais Myfyrwyr, gyda chymorth mewn ysgolion i siarad yn uniongyrchol â myfyrwyr;
- .3 polisiau allweddol a roddwyd ar waith i fynd i'r afael ag asesu;
- .4 canlyniadau graddedigion da;

2221.4 y rhagwelwyd y byddai DPP yn ffocws i CTER ar ôl ei sefydlu a bod y Brifysgol wedi gwneud cynnydd da yn y maes hwn;

2221.5 bod rhai elfennau o'r prosiect Bywyd ar y Campws wedi'u gohirio i'r blynyddoedd i ddod;

2221.6 y byddai'r portffolio presennol yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2024 gyda ffocws ar fodelau aeddfedrwydd a symud gweithgaredd i fusnes fel arfer; byddai ffocws yn symud i brofiad myfyrwyr.

2222 Adolygiad Allanol o Archwilio Mewnol

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 23/489HC, ' Adroddiad Adolygiad Archwilio Mewnol Caerdydd'. Siaradodd y Prif Swyddog Gweithredu am yr eitem hon.

Nodwyd

2222.1 bod yr adolygiad wedi'i gynnal gan SUMS Consulting;

2222.2 bod nifer o argymhellion wedi eu gwneud a nifer eisoes yn eu lle (e.e mynd i'r afael â'r argymhelliad i sefydlogi'r adran trwy benodi Pennaeth Archwilio Mewnol parhaol);

- 2222.3 bod angen rhoi adnoddau i'r tîm risg, yn hytrach na chyfyngiadau cyllidebol; roedd cynlluniau i ddatblygu'r tîm presennol;
- 2222.4 na chynigiwyd diwygio'r llinellau adrodd presennol;
- 2222.5 y byddai cwblhau'r argymhellion yn cael ei olrhain drwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg;
- 2222.6 diolchwyd i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Prif Swyddog Gweithredu am eu gwaith yn datblygu'r maes hwn.

Penderfynwyd

- 2222.7 cymeradwyo argymhellion yr Adolygiad Allanol o Archwilio Mewnol.

2223 Newidiadau i Deitl Dirprwy Is-Ganghellor

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 23/440, 'Newidiadau i Ordinadau – Teitl Dirprwy Is-Ganghellor'. Siaradodd yr Is-ganghellor am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2223.1 y dylai'r teitl diwygiedig fod yn "Brofost a Dirprwy Is-Ganghellor", yn unol â'r geiriad a ddefnyddir ar draws y sector.

Penderfynwyd

- 2223.2 cymeradwyo'r teitl diwygiedig, yn amodol i'r newid uchod.

2224 Diweddariad Taith

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 23/545, 'Diweddariad Taith'.

Nodwyd

- 2224.1 bod cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect wedi'i haneru a bod hyn yn siomedig; fodd bynnag, o ystyried yr amgylchedd anffafriol roedd y Llywodraeth wedi ymrwymo rhywfaint o gyllid a oedd yn gadarnhaol; y gobaith oedd y byddai hyn yn parhau o ystyried bod y cynllun yn cyd-fynd yn dda â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

2225 Adroddiad gan y Pwyllgor Dileu Swyddi i'r Cyngor

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 23/553C, 'Adroddiad gan y Pwyllgor Dileu Swyddi i'r Cyngor'. Siaradodd y Cyfarwyddwr AD Dros Dro am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2225.1 ymunodd y Cyfarwyddwr AD Dros Dro â'r cyfarfod i gyflwyno'r eitem hon;

2225.2 [Hepgorwyd];

2225.3 [Hepgorwyd].

Penderfynwyd

2225.4 [Hepgorwyd].

2226 Unrhyw Fater Arall

Nodwyd nad oedd unrhyw faterion eraill.

2227 Siarter Archwilio Mewnol

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 23/494HC, 'Siarter Archwilio Mewnol'.

Penderfynwyd

2227.1 cymeradwyo'r Siarter wedi'i diweddaru.

2228 Diweddariadau i'r Cynllun Dirprwyo

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 23/430R, 'Diweddariadau i'r Cynllun Dirprwyo'.

Penderfynwyd

2228.1 cymeradwyo'r diweddariadau arfaethedig i'r Cynllun Dirprwyo.

2229 Newidiadau i'r Ordinhad 3

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 23/436, 'Newidiadau i Ordinhad 3'.

Penderfynwyd

2229.1 cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i Ordinhad 3 – Rheolau Sefydlog.

2230 Newidiadau i'r Ordinhad 8

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 23/440, 'Newidiadau i Ordinhad 8'.

Penderfynwyd

2230.1 cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i Ordinhad 8 - Penodi Dirprwy Is-Ganghellor a Dirprwy Is-Gangellorion.

2231 Grant Bloc UM 2024-25

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 23/536C, 'Grant Bloc UM 2024-25'.

Penderfynwyd

2231.1 cymeradwyo bod Undeb y Myfyrwyr yn derbyn dyraniad Grant Bloc arian parod o £3,326,975 ar gyfer 2024/25;

2231.2 a chymeradwyo naill ai ei gynnwys yng nghanam 1 o raglen solar y Brifysgol, neu £165K i ariannu gosod paneli solar ar do adeilad Undeb y Myfyrwyr.

2232 Eitemau a Dderbyniwyd er Gwybodaeth

- 23/554C Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg
- 23/575C Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau
- 23/555C Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu
- 23/556 Adroddiad gan y Senedd

- 23/557 Selio Trafodion
- 23/538C Dangosfwrdd AD
- 23/490HC Diweddariad ar Ddigwyddiadau Mawr a Difrifol